Archwilio Cymru
Audit Wales

Briff ymgeisydd ar gyfer swydd

# Cyfarwyddwr Gweithredol Effaith a Moderneiddio Archwilio

Mawrth 2025



# Rhagair



**Adrian Crompton**
Archwilydd
Cyffredinol Cymru

Diolch am ddangos diddordeb yn Archwilio Cymru. Wrth i chi ddysgu mwy am bwy ydym ni a'r hyn rydym yn anelu at ei gyflawni, rwy'n gobeithio y byddwch chi eisiau dod i ymuno â ni.

Rwyf wedi bod yn Archwilydd Cyffredinol Cymru ac yn Brif Weithredwr Archwilio Cymru ers 2018. Mae'n swydd anhygoel: a benodir gan y Goron; yn gwbl annibynnol ar y llywodraeth; gyda phersbectif unigryw ar draws y gwasanaeth cyhoeddus cyfan. Mae'n fraint i mi arwain 300 o weithwyr proffesiynol gwych sy'n angerddol am ysgogi newid a gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus ac atebolrwydd democrataidd. Mae gennym lefelau gwych o ymgysylltu â staff, telerau ac amodau gwych, y gallu i weithio yn hyblyg iawn, ac mae'r gwaith yn werth chweil sy'n gwneud gwahaniaeth.

Yn Archwilio Cymru rydym yn archwilio gwariant a pherfformiad y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru: sefydliadau sy'n gwario tua £28 biliwn o arian y cyhoedd bob blwyddyn gan gynnwys Llywodraeth Cymru, y GIG, llywodraeth leol, yr heddlu, awdurdodau tân a pharciau cenedlaethol, a llawer mwy.

Mae'r cyfuniad hwnnw o annibyniaeth, arbenigedd ac ehangder barn yn rhoi gallu unigryw i ni ysgogi gwerth am arian, llywodraethu da ac atebolrwydd i bobl Cymru. Mewn byd sy'n newid yn gyflym, gyda phwysau eithafol ar gyllid cyhoeddus a galw sy'n tyfu o hyd ar wasanaethau cyhoeddus, ni fu erioed amser pwysicach ar gyfer y gwaith a wnawn.

Wrth gwrs, ni waeth pa mor gryf yr ydym yn perfformio heddiw, mae ein hamgylchedd proffesiynol a'r byd o'n cwmpas yn newid yn gyflym. Rwy'n chwilio am arweinydd archwilio cyhoeddus eithriadol i weithio ochr yn ochr â mi, ein Bwrdd a gweddill y tîm arweinyddiaeth i fynd ag Archwilio Cymru i'r dyfodol hwnnw.

Felly, os ydych chi'n angerddol am ysgogi atebolrwydd a gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus, os ydych chi am weithio gyda phobl wych sy'n ymroddedig i wneud gwahaniaeth, os oes gennych chi'r arddull a'r sgiliau arwain i ysbrydoli a grymuso eraill, ac os ydych chi am gael hwyl ar hyd y ffordd, darllenwch ymlaen oherwydd byddwn i wrth fy modd pe byddech yn gwneud cais.

# Archwilio Cymru

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél sy'n disgrifio dau endid cyfreithiol ar wahân: Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, sy'n gwario tua £28 biliwn yn flynyddol, neu dros 25% o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth Cymru. Mae'r cylch gwaith yn cynnwys Llywodraeth Cymru; ei gyrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig; Comisiwn y Senedd; Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol; llywodraeth leol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae rôl yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, a sut maent yn sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi adroddiadau ar y gwaith hwnnw, ac mae rhai ohonynt yn cael eu hystyried gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â gwaith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Gweithgaredd craidd Archwilio Cymru:

- archwilio cyfrifon dros 800 o gyrff cyhoeddus Cymru bob blwyddyn
- rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian
- archwiliad o weithrediad Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- cefnogi craffu effeithiol gan gynnwys drwy waith Pwyllgorau'r Senedd
- rhannu arferion da a'r hyn a ddysgwyd ar draws y sector cyhoeddus
- hwyluso canfod twyll a chamgymeriadau drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol
- ardystio cynlluniau grant gwerth tua £1.5 biliwn
- cymeradwyo tua £2 biliwn o daliadau o Gronfa Gyfunol Cymru bob mis

Mae Archwilio Cymru yn cyflogi tua **300 o staff mewn 3 safle**, Caerdydd, Penllergaer a Chyffordd Llandudno. Mae ganddo **gyllideb flynyddol o tua £28m** sy'n cael ei gynhyrchu'n bennaf o incwm o ffioedd archwilio (65%) ac o grant yn uniongyrchol gan Gronfa Gyfunol Cymru (35%).

# Cefndir i'r penodiad hwn

Yn ystod y blynyddoedd nesaf bydd cryn newid a chyfle i Archwilio Cymru. 2025-26 yw pedwaredd flwyddyn ein strategaeth 5 mlynedd bresennol. Mae'r strategaeth honno'n parhau i fod yn hollbwysig ac rydym ar y trywydd iawn i wneud hynny trwy fireinio darpariaeth ein rhaglenni archwilio ymhellach a chynyddu ein heffaith a'n hamlygrwydd. Yn 2026, bydd tymor 8 mlynedd yr Archwilydd Cyffredinol presennol yn dod i ben a bydd Archwilydd Cyffredinol newydd yn cael ei benodi. Hefyd yn 2026, bydd etholiadau i'r Senedd wedi'i hymestyn i 96 o Aelodau.

Yn ogystal â'r amgylchedd economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol ehangach, gwyddom fod ein gwaith archwilio, adroddiadau ariannol a thirweddau'r sector cyhoeddus yn esblygu'n gyson: yn gynyddol rydym yn eu gweld yn cael eu heffeithio gan dechnolegau newydd, gofynion rheoleiddio cynyddol a disgwyliadau y cyhoedd o ran atebolrwydd y llywodraeth. Mae ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2025-26 yn ein gweld yn paratoi ein hunain ar gyfer y byd datblygol hwnnw.

Rydym yn chwilio am arweinydd o ansawdd profedig, sydd â chefndir cryf mewn archwilio cyhoeddus, i ymuno â thîm sefydledig â pherfformiad uchel i arwain Archwilio Cymru i'r dyfodol hwnnw.

# Strategaeth

**Nodau Archwilio Cymru yw:**

- Sicrhau pobl bod arian cyhoeddus hynny yn cael ei reoli'n dda
- Esbonio sut mae'r arian hwnnw yn cael ei wario
- Ysbrydoli'r sector cyhoeddus i wella

Mae gan Archwilio Cymru Gynllun Blynyddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod sy'n nodi'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud i gyflawni ein huchelgeisiau sefydliadol, sef:

- Manteisio'n llawn ar ein persbectif, arbenigedd a dyfnder mewnwelediad unigryw
- Cryfhau ein safle fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol
- Cynyddu ein amlygrwydd, ein dylanwad a'n perthnasedd
- Bod yn sefydliad enghreifftiol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

## Ein hymddygiad




## Ein gwerthoedd



Ym mis Hydref/Tachwedd 2024, gwelodd ein harolwg staff blynyddol ganlyniadau cadarnhaol drwyddi draw a **sgôr ymgysylltu staff gyffredinol o 71%** sy'n ein rhoi ymhlith y sefydliadau cyhoeddus gorau yn unman yn y DU. Rydym hefyd wedi cael ein hasesu fel un o'r deg sefydliad gorau yn unrhyw le yn y DU am ein cefnogaeth i deuluoedd sy'n gweithio.

I gael gwybod mwy am y sefydliad a'i Fwrdd, ewch i'r dolenni canlynol:

www.audit.wales/cy/cyhoeddiad/adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2023-24

www.audit.wales/cy/cyhoeddiad/cynllun-blynyddol-2024-25

# Y rôl

Bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol Effaith a Moderneiddio Archwilio, ynghyd â dau Gyfarwyddwr Gweithredol sefydledig (un sy'n gyfrifol am Gyflenwi Archwilio a'r llall ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol) a'r Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr, yn ffurfio Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol Archwilio Cymru. Mae pob Cyfarwyddwr Gweithredol yn atebol i'r Archwilydd Cyffredinol (a'r Bwrdd) ac yn dirprwyo drosto fel sy'n ofynnol yn rhinwedd ei swydd fel Prif Weithredwr, gan ddarparu arweinyddiaeth strategol a chyfeiriad ar draws y sefydliad.

Bydd gan y penodai y ddealltwriaeth a'r profiad dwfn o archwilio cyhoeddus sydd eu hangen i gario pwysau ac awdurdod mewn sefydliad archwilio proffesiynol. Yn eu harddull bersonol bydd yn modelu'r gwerthoedd a'r ymddygiadau sy'n sail i Archwilio Cymru, yn cymell cydweithwyr trwy ddiwylliant o hyfforddi a datblygu, ac yn dod â'r egni a'r arweinyddiaeth strategol sydd ei hangen ar Archwilio Cymru i wella ei statws fel corff cyhoeddus eithriadol. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dangos yr arddull agored, gydweithredol ac anhunanol sydd ei hangen i gyd-fynd â'r tîm arweinyddiaeth sefydledig. Bydd ganddynt gyfrifoldeb rheoli llinell uniongyrchol ar gyfer tua 35 o staff ar draws amrywiaeth o dimau.

Bydd y cyfrifoldebau penodol i'r rôl yn cynnwys:

- cynnal y cyfrifoldeb ar draws Archwilio Cymru gyfan i sicrhau ein bod yn cyflawni ein strategaeth 5 mlynedd ac yn arwain ein datblygiad o ystyried tirlun esblygol archwilio cyhoeddus. Yn ogystal â'r amgylchedd economaidd, gwleidyddol a chyhoeddus ehangach, rydym wedi nodi trawsnewidiad digidol ein gwaith archwilio a'n gweithrediad mewnol; newid safonau proffesiynol wrth archwilio; cwmpas ein gwaith; a'r sgiliau a'r gallu cysylltiedig yn y dyfodol sydd eu hangen arnom, fel ysgogiadau pwysig ar gyfer y datblygiad hwn.
- TG, dadansoddi data a newid sefydliadol. Er bod trawsnewid digidol ymhell o'r unig elfen o newid a her sy'n ein hwynebu, mae'n un pwysig. Felly, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn sefydlu ac yn arwain injan ar gyfer datblygu digidol ar ffurf ein tîm newid presennol gan weithio ochr yn ochr â dau dîm (TG a Dadansoddi Data) gyda phwyslais amlwg ar TG. Hyd yn hyn, mae'r tri thîm hyn wedi'u lleoli mewn rhannau gwahanol o'r sefydliad.

- cyfathrebu mewnol ac allanol, cyhoeddi, dylunio a'n rhaglen Cyfnewid Arfer Da. Gan adeiladu ar sylfaen gref, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn arwain ein gwaith i wella enw da allanol Archwilio Cymru ymhellach a phroffil ac effaith ein gwaith.

- arwain ein Hadolygiad Cynaliadwyedd Ariannol parhaus i ysgogi effeithlonrwydd yn y dyfodol a newidiadau angenrheidiol i'n model gweithredu mewnol.

- ein cyfrifoldebau fel corff cyhoeddus enghreifftiol mewn perthynas â'r Gymraeg.

- cynllunio ac adrodd strategol sefydliadol i'n Bwrdd ac yn allanol, ar ystod eang o ddyletswyddau statudol.

## Cyfrifoldebau cyffredinol

- mae gan bob un o'r tri Chyfarwyddwr Gweithredol gyfrifoldeb ar y cyd am arweinyddiaeth strategol Archwilio Cymru. Gan ddechrau o ddisgwyliad o berfformiad uchel ar draws y meysydd swyddogaethol o fewn eu cylchoedd unigol a chyflawni Strategaeth Pum Mlynedd, Cynllun Blynyddol a chyfrifoldebau strategol a neilltuwyd i bob un, disgwylir iddynt weithio gyda'i gilydd i gyflawni tri amcan a rennir:
  - cynnal amlygrwydd ac effeithiolrwydd yr Uwch Dîm Arwain fel y prif fforwm arweinyddiaeth yn Archwilio Cymru a sicrhau cydlyniad arweinyddiaeth trwy gyfarwyddwyr, penaethiaid gwasanaeth ac uwch reolwyr eraill, fel bod yn eglur ac yn hyderus ynghylch ein neges arweinyddiaeth a'n gallu i gyflawni.
  - gweithio mewn partneriaeth â Chyfarwyddwyr Gweithredol eraill ac uwch arweinwyr/rheolwyr i chwalu seilos a meithrin diwylliant 'Un Archwilio Cymru'.
  - darparu sefydlogrwydd a hyder mewn arweinyddiaeth sefydliadol wrth i ni lywio y newid i Archwilydd Cyffredinol newydd a'r cyfnod pontio yn sgil hynny yn 2026
- dod â dull dynamig i arweinyddiaeth strategol Archwilio Cymru – gan ysgogi cyflawni ei weledigaeth, ei uchelgeisiau a'i gynlluniau busnes yn gyflym

- codi proffil a dylanwad Archwilio Cymru – meithrin cysylltiadau strategol, hygrededd a dylanwad ar draws y llywodraeth a'r sector cyhoeddus ehangach, grwpiau proffesiynol, asiantaethau archwilio y DU a rhyngwladol, y byd academaidd, y cyfryngau a sectorau perthnasol eraill.

- arwain newid diwylliannol a thrawsnewid ar draws Archwilio Cymru – hyrwyddo cydweithio ac annog arloesedd a chroesawu'r newidiadau sydd eu hangen i wireddu ein huchelgeisiau sefydliadol
- adeiladu amgylchedd perfformiad uchel – sicrhau bod canlyniadau gwerth am arian o ansawdd uchel yn cael eu cyflawni mewn gwaith archwilio a'r ffordd y mae'r sefydliad yn cael ei redeg, gan gefnogi staff Archwilio Cymru i fod y gorau y gallant fod
- arwain drwy esiampl – modelu rôl gwerthoedd ac ymddygiadau Archwilio Cymru, gan ddangos annibyniaeth a gonestrwydd, bod yn arweinydd gweladwy, dilys
- gwaith tîm – gan wneud y Tîm Arwain Gweithredol yn fodel o arweinyddiaeth gydweithredol, hyderus a deinamig
- canolbwyntio ar y dyfodol – pwyslais di-baid ar ddatblygiad hirdymor Archwilio Cymru fel ein bod yn ffynnu nawr ac yn y dyfodol. Dangos barn gadarn a gwneud penderfyniadau ar bynciau sylweddol a chymhleth, gan ddarparu cyngor ac arweiniad i'r Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr a'r Bwrdd
- dirprwyo ar ran yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr yn ôl yr angen ar draws ystod lawn ei gyfrifoldebau Prif Weithredwr

## Cyfrifoldebau penodol i'r rôl

- cynnal y cyfrifoldeb ar draws Archwilio Cymru i sicrhau ein bod yn cyflawni ein strategaeth 5 mlynedd ac yn ymateb yn effeithiol i dirwedd esblygol archwilio cyhoeddus.
- arwain yn rhagweithiol ar dirlun esblygol archwilio cyhoeddus. Yn ogystal â'r amgylchedd economaidd, cymdeithasol a chyhoeddus ehangach, rydym wedi nodi trawsnewidiad digidol ein gwaith archwilio a'n gweithrediad mewnol; newid safonau proffesiynol wrth archwilio; cwmpas ein gwaith; a'r sgiliau a'r gallu cysylltiedig yn y dyfodol sydd eu hangen arnom, fel ysgogiadau pwysig ar gyfer y datblygiad hwn.
- arwain ein Hadolygiad Cynaliadwyedd Ariannol parhaus i ysgogi effeithlonrwydd yn y dyfodol a newidiadau angenrheidiol i'n model gweithredu mewnol.
- cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth ar gyfer cyfathrebu, brand, enw da ac allanol Archwilio Cymru, gan arwain ein dull strategol o ddarparu a thrawsnewid gwasanaethau digidol, gan gydbwyso'r angen am y safonau uchaf o seiberddiogelwch a gwybodaeth mewn corff cyhoeddus proffil uchel. Gyda'n hawydd i fanteisio ar dechnoleg fwyfwy yn ein gwaith archwilio a'n gweithrediad mewnol.

- arwain y gwaith o gynllunio, llywodraethu a chyflawni rhaglen newid Archwilio Cymru, gan sicrhau bod canlyniadau y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflawni ar amser ac o fewn y gyllideb a bod newid yn cael ei reoli'n dda.
- cynllunio ac adrodd strategol ar draws ein holl ddyletswyddau statudol gan gynnwys ein Cynllun a'n Hadroddiad Blynyddol; cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a'r Gymraeg.
- datblygu a gweithredu cynlluniau busnes ar gyfer y gyfarwyddiaeth sy'n gweithio ar draws meysydd gwasanaeth a sicrhau darpariaeth i amser, cost ac ansawdd.
- datblygu rhwydweithiau a pherthnasoedd gwaith gyda chyrff y llywodraeth, arweinwyr a rhanddeiliaid allweddol ar draws sefydliadau yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i hwyluso a hyrwyddo gwaith Archwilio Cymru.
- rheolaeth ariannol ac adnoddau effeithiol o fewn y gyfarwyddiaeth.
- gweithio gyda'r Cyfarwyddwyr Gweithredol eraill i sicrhau bod gweithgareddau'r gyfarwyddiaeth yn cael eu cydlynu ac yn cefnogi blaenoriaethau sefydliadol
- creu diwylliant cydlynol a chynhwysol ar draws y Gyfarwyddiaeth sy'n dangos pwyslais cryf ar gwsmeriaid ac sy'n gallu dangos canlyniadau ac effaith.

## Amdanoch chi

### Priodoleddau personol

Fe fyddwch:

- yn chwaraewr tîm – yn agored, yn gydweithredol ac yn hawdd mynd ato.
- yn weladwy, rhagweithiol, deinamig ac yn feddyliwr hirdymor.
- yn dangos angerdd am archwilio cyhoeddus fel grym er daioni, a brwdfrydedd i arwain ac ysgogi'r timau proffesiynol amrywiol yn eich portffolio.
- yn cael effaith bersonol, gyda'r gallu i ddylanwadu'n gadarnhaol ar draws Archwilio Cymru ac yn allanol ar ystod o faterion.
- yn gweithredu gyda gonestrwydd, ennill parch, ymddiriedaeth ac ymrwymiad gan eraill, yn barod i wneud penderfyniadau anodd ac i roi anghenion Archwilio Cymru o flaen dewisiadau personol.
- yn gyfathrebwr cryf, sy'n gallu mynegi ein gweledigaeth ac ymgysylltu â chydweithwyr a rhanddeiliaid wrth ei chyflwyno.

- yn ddiplomyddol ac yn wleidyddol graff gyda'r gallu i ymgysylltu'n effeithiol â chydweithwyr a rhanddeiliaid allanol ar y lefelau uchaf.
- yn arloesi'n bersonol ac yn gallu meithrin amgylchedd lle gall arloesi a chreadigrwydd ffynnu.

## Gwybodaeth, sgiliau a phrofiad

- hanes cryf ym maes archwilio cyhoeddus. P'un a yw hyn ym maes archwilio ariannol neu berfformiad, bydd gennych brofiad helaeth ac arbenigedd sy'n eich galluogi i ysgogi newid yn awdurdodol mewn corff archwilio cyhoeddus.
- profiad sylweddol ac amlwg o weithio ar lefel uwch i arwain rhaglenni newid sylweddol.
- sgiliau arwain pobl profedig, gan gynnwys y gallu i greu timau effeithiol sy'n perfformio'n dda gyda lefel uchel o ymgysylltu â staff.
- profiad sylweddol ac amlwg o arwain timau amlddisgyblaethol yn llwyddiannus.
- profiad o weithio'n llwyddiannus ar lefel uwch mewn un neu fwy o'r meysydd swyddogaethol y byddwch yn eu harwain h.y. cyfathrebu, newid, TG a digidol, a chynllunio strategol.
- profiad o weithredu'n effeithiol ar lefel uwch weithredol a Bwrdd.
- hanes o reoli rhanddeiliaid strategol effeithiol ar lefel uwch.
- hanes o weithio gyda phobl o ystod o gefndiroedd a disgyblaethau, gwerthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb ym mhob agwedd ar y rôl.
- byddai'r gallu i gyfathrebu'n broffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddymunol tra bod dealltwriaeth glir ac ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau Archwilio Cymru mewn amgylchedd dwyieithog yn hanfodol.

# Telerau ac amodau a lleoliad

Cynigir y penodiad hwn **ar sail barhaol**.

Lleoliad - Bydd y rôl wedi'i lleoli yng **Nghaerdydd**. Mae gan Archwilio Cymru bolisi gweithio hyblyg ac mae'r holl staff yn gallu cymysgu gweithio gartref a swyddfa yn unol ag angen busnes. O ystyried lefel y rôl hon, bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus farnu'r cydbwysedd hwnnw (ac felly faint o amser y bydd yn ei dreulio yn gorfforol yn swyddfa Caerdydd) yn unol ag anghenion y timau, Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Bwrdd, y Tîm Arwain Gweithredol a chyfrifoldebau ehangach y rôl. Mae staff Archwilio Cymru yn weithredol ledled Cymru a byddai angen teithio yn achlysurol i'n holl swyddfeydd.

Cyflog sylfaenol cystadleuol o **£115,970–£121,434** ar adeg y penodiad gyda'r cynnydd yn amodol ar berfformiad (brig y band cyflog yw tua **£143,285**).

**33 diwrnod o wyliau** ynghyd ag 8 diwrnod o wyliau cyhoeddus.

Pensiwn – Cynllun Pensiwn y **Gwasanaeth Sifil** (cyflogwr 28.97%: cyfraniadau o 7.35% gan weithwyr).

# Proses a sut i wneud cais

Gellir cyflwyno ceisiadau drwy **CV a llythyr eglurhaol** yn egluro pam yr hoffech gael eich ystyried a sut rydych yn bodloni'r gofynion, drwy ein system Adnoddau Dynol yma. Adrian Crompton, yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr fydd yn cadeirio'r broses benodi derfynol.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw hanner nos ar **13 Ebrill 2025**.

Bydd y rhestr fer yn cael ei chreu yn ystod yr wythnos sy'n dechrau **14 Ebrill 2025**.

Bydd y broses ddethol derfynol yn cael ei chynnal yn ystod wythnos **28 Ebrill 2025**.

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.